# AWDURDOD CYLLID CYMRU

# Arfarniad o'r opsiynau ar gyfer lleoliad

# Adroddiad Terfynol

**(fersiwn 1.0)**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 3 |
| Cefndir | 4 |
| Cyd-destun y penderfyniad hwn | 4 |
| Dull gweithredu ac ymgysylltu | 6 |
| Y camau a gymerwyd | 7 |
| Gofynion gweithredol a'r ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant | 9 |
| Gofynion gweithredol eraill | 12 |
| Rhagdybiaethau'r arfarniad | 14 |
| Arfarnu'r opsiynau | 14 |
| Rhestr fer o'r lleoliadau | 14 |
| Crynodeb - matrics yr arfarniad o'r opsiynau | 16 |
| Dull sgorio | 17 |
| Casgliadau | 18 |

| | | |
|---|---|---|
| Atodiad A – | Addasrwydd gweithredol yr eiddo ar y rhestr fer | 20 |
| Atodiad B – | Tablau sgorio:<br>Gweithlu arbenigol<br>Pa mor agos mae'r lleoliad at randdeiliaid allweddol<br>Sgiliau yn y Gymraeg | 24 |
| Atodiad C – | Map yn dangos safleoedd tirlenwi a thrafodiadau y dreth stamp | 28 |

## Crynodeb

1. Awdurdod Cyllid Cymru (yr Awdurdod) fydd yn arwain ac yn gyfrifol am gasglu trethi Cymru: Y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen.

2. Mae swyddogion Rhaglen Weithredu’r Awdurdod wedi cwblhau arfarniad o'r opsiynau i helpu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i benderfynu ymhle y dylid lleoli swyddfa’r Awdurdod.

3. Wrth ystyried gofynion gweithredol y sefydliad newydd hwn cododd nifer o ofynion busnes. Cafodd tri ffactor hanfodol ar gyfer llwyddiant eu cadarnhau ac fe’u defnyddiwyd i arfarnu'r chwe lleoliad ar y rhestr fer. Yn ystod yr arfarniad, rhoddwyd ystyriaeth lawn i strategaeth leoli Llywodraeth Cymru ac mae hyn wedi'i adlewyrchu drwy'r adroddiad hwn.

4. Casgliad yr arfarniad o'r opsiynau yw mai’r De-ddwyrain yw'r rhanbarth fwyaf effeithiol yn weithredol i leoli’r Awdurdod, a hynny ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldebau'n hawdd o’r cychwyn cyntaf a pharhau i weithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol. Mae’n bosib y byddai tair o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn yr ardal hon yn bodloni gofynion yr Awdurdod. O'r tair swyddfa, Parc Cathays sy'n sgorio uchaf o ran bodloni gofynion yr Awdurdod.

5. Mae'r arfarniad hefyd yn nodi'r angen am bresenoldeb i ffwrdd o'r brif swyddfa, ac fe gaiff y Gogledd ei argymell fel yr ardal orau ar gyfer hyn. Byddai'r dull gweithredu hwn yn helpu i wneud y mwyaf o’r gwasanaeth digidol ar gyfer Cymru gyfan fydd ar gael i drethdalwyr a'u hasiantau ac yn gynhorthwy o leiaf yn ystod y cyfnod pontio rhwng y ddwy system dreth.

6. Mae'r arfarniad yn nodi’r argymhellion a’r prif bwyntiau canlynol:

   i) **dylid lleoli prif swyddfeydd yr Awdurdod yn y De-ddwyrain gan mai dyma'r ardal sy'n bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod orau.**

   ii) **mae gan Lywodraeth Cymru dair swyddfa yn y De-ddwyrain a fyddai'n gallu bodloni gofynion yr Awdurdod o bosib (Parc Cathays, Merthyr Tudful a QED, Trefforest).** O’r rhain, credir bod risg uwch i swyddfa Merthyr Tudful o ran y gallu i ddenu sgiliau allweddol a’r lleoliad o gymharu â’r cwsmeriaid. Credir y byddai modd i swyddfeydd Trefforest a Pharc Cathays fodloni gofynion yr Awdurdod yn dda iawn. Yn achos QED Trefforest, mae strategaeth leoli Llywodraeth Cymru yn nodi bod cyfle i dynnu'n ôl o’r swyddfa yn gynnar yn 2019-20, ond byddai’n bosibl i’r Awdurdod gael lle yno y tu hwnt i hynny. Mae’n bosibl y byddai angen i Swyddfa Parc Cathays adleoli rhai o’r aelodau staff presennol i wneud lle i’r Awdurdod. Fodd bynnag, nawr ac yn y tymor hirach (o ganlyniad i’r gwaith adnewyddu’r swyddfa sy’n digwydd ar hyn o bryd) byddai modd iddo gynnig lle i’r Awdurdod.

**iii) dylid sefydlu rôl symudol ar gyfer yr Awdurdod i ffwrdd o'r brif swyddfa i ddiwallu anghenion y cwsmeriaid yn ehangach. Awgrymir y dylai’r corff gael presenoldeb yn y Gogledd.**

7. Mae gweddill y ddogfen hon yn rhoi braslun o'r broses arfarnu a ddilynwyd ac yn egluro'r rhesymau dros yr argymhellion a gyflwynir ym mharagraff 6.

## Cefndir

8. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pŵer i sefydlu’r Awdurdod.

9. Bydd yr Awdurdod yn cael ei sefydlu fel adain weithredol yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, a bydd yn cael ei ariannu'n llawn o’r grant bloc. Adran Anweinidogol o’r Llywodraeth fydd ei statws a dyma fydd y corff cyntaf o'r fath i gael ei greu gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru ac yn gwneud hynny’n ddiduedd, ond nid oes angen iddo gael ei leoli ar wahân yn ddaearyddol. Bydd yn aros fel adran o’r Llywodraeth gan fod casglu trethi yn swyddogaeth i'r llywodraeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod polisi treth a byddant yn dymuno rhoi cyfarwyddyd strategol i’r Awdurdod, ond ni fyddant yn rhan o’r gwaith o wneud penderfyniadau gweithredol.

10. Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai’r Awdurdod yn casglu ac yn rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir. Yn ogystal, byddai'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gan gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi'r dreth.

11. Mae angen penderfynu ar y lleoliad ym mis Tachwedd 2016 i sicrhau digon o amser i baratoi’r swyddfa ac i wneud unrhyw newidiadau strwythurol y mae eu hangen. Bydd hefyd yn bwysig gwybod ymhle fydd y swyddfa’n cael ei lleoli cyn i’r Awdurdod ddechrau recriwtio cadeirydd, bwrdd a gweithlu.

12. Bydd angen i’r Awdurdod fod yn gwbl weithredol o fis Ebrill 2018 pan mae disgwyl i'r trethi datganoledig ddod i rym. Rhagwelir y bydd angen i'r swyddfa fod yn barod o leiaf chwe mis cyn y dyddiad hwn er mwyn i’r Awdurdod allu paratoi i ddarparu gwasanaeth o'r diwrnod cyntaf.

## Cyd-destun y penderfyniad hwn

13. Mae sefydlu’r Awdurdod yn gam hanesyddol ymlaen wrth ddatganoli trethi i Gymru. Bydd gan yr awdurdod newydd rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Bydd y trethi y bydd yn eu casglu yn rhan allweddol o'r cyllid fydd ar gael yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

14. Bydd gallu’r Awdurdod i weithredu'n effeithiol yn ddibynnol ar greu sylfaen o hygrededd. Bydd sicrhau bod y broses o drosglwyddo i'r system dreth newydd yn un ddi-drafferth i’r trethdalwyr yn hanfodol ar gyfer hyn. Y cam cyntaf wrth greu'r sylfaen hwn o hygrededd yw sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu'n llwyddiannus o'r cychwyn cyntaf. Mae lleoliad cychwynnol yr Awdurdod yn benderfyniad allweddol mewn perthynas â lleihau'r risg naturiol sy’n codi wrth sefydlu'r corff newydd hwn yng Nghymru.

15. Ar yr un pryd, drwy sefydlu’r Awdurdod mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn ngallu gweinyddol y llywodraeth yng Nghymru ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. Er na fydd yr Awdurdod yn sefydliad mawr, bydd angen iddo ddenu a chadw amrywiaeth o weithwyr proffesiynol medrus i gyflawni ei swyddogaethau elfennol. Bydd sgiliau ym meysydd y gyfraith, treth, data a digidol yn gymwyseddau hanfodol ar gyfer yr Awdurdod.

16. Er mwyn rhedeg yr Awdurdod yn effeithiol ac yn effeithlon, mae'n hollbwysig bod y lleoliad gaiff ei ddewis yn caniatáu ar gyfer datblygu'r gweithlu medrus y bydd ei angen arno nawr ac yn y dyfodol. Bydd lansio’r Awdurdod yn llwyddiannus a’i ddatblygu’n y dyfodol yn llawer haws drwy ddewis lleoliad sy'n diwallu’r anghenion presennol ac yn y tymor hir.

17. Mae camsyniad cyffredin yn bodoli ynghylch statws newydd yr Awdurdod. Canlyniad hyn yw meddwl bod angen lleoli’r Awdurdod ar wahân i'r Gweinidogion yn hytrach na chanolbwyntio ar sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu gwneud penderfyniadau treth beunyddiol heb gynnwys y Gweinidogion, a diogelu gwybodaeth dreth gyfrinachol trethdalwyr unigol. Mae’r hyn sy’n digwydd mewn lleoedd eraill yn dangos bod Llywodraethau a'u hawdurdodau treth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd; mae Revenue Scotland wedi'i leoli yn swyddfa Victoria Quay Llywodraeth yr Alban yng Nghaeredin, ac yn yr un modd mae prif swyddfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn rhannu adeilad â Thrysorlys ei Mawrhydi. O dan yr amgylchiadau, ni fydd yn angenrheidiol i’r Awdurdod ymgartrefu mewn adeilad ar wahân i Lywodraeth Cymru ond bydd angen gwneud darpariaeth er mwyn diogelu cyfrinachedd gwybodaeth trethdalwyr unigol.

## Dull gweithredu ac ymgysylltu

18. Gwnaed yr arfarniad mewn tri cham dilynol:

- Cam 1 - dangosodd y cam hwn y byddai'n fwy effeithlon i Lywodraeth Cymru pe bai'r Awdurdod yn cael ei leoli yn ystad y Llywodraeth. Canlyniad hyn oedd diystyru lleoliadau nad oeddent yn rhan o ystad Llywodraeth Cymru.
- Cam 2 - yn ystod y cam hwn lluniwyd rhestr fer o leoliadau posib yn ystad Llywodraeth Cymru.
- Cam 3 – yn ystod y cam hwn arfarnwyd y lleoliadau ar y rhestr fer yn seiliedig ar y tri ffactor hanfodol ar gyfer llwyddiant y cytunwyd arnynt. Mae manylion y ffactorau i'w gweld ar dudalennau 9-11.

19. Drwy gydol y broses arfarnu rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiwn o gael un swyddfa yn unig neu gael swyddfeydd ar wasgar. Ceir rhagor o fanylion ar dudalennau 12-13 am yr ystyriaethau amrywiol yn ymwneud â'r opsiynau hyn, o safbwynt gweithredol ac o safbwynt y cwsmeriaid.

20. Mae'r cysylltiad â Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol Llywodraeth Cymru (Grŵp o dan arweiniad swyddogion sy'n cymeradwyo holl benderfyniadau ynghylch adeiladau Llywodraeth Cymru) a chydweithwyr yn yr Is-adran Gwasanaethau Proffesiynol Busnes ac Eiddo wedi bod yn hynod werthfawr gydol y broses hon. Mae'r cyngor a'r wybodaeth a ddarparwyd wedi cael eu cynnwys yn yr arfarniad hwn.

21. Sicrhawyd ein bod yn cydweithio gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru yn ystod pob cam, yn ogystal ag ymgysylltu â'r bwrdd prosiect perthnasol o ran yr Awdurdod, Bwrdd Gweithredu Rhaglen yr Awdurdod a Grŵp Trosolwg Diwygio Cyllidebol Trysorlys Cymru.

22. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad strategaeth leoli Llywodraeth Cymru i ystyried cyfleoedd i gynnig swyddi ledled Cymru, tra'n chwilio am leoliad sy'n cefnogi anghenion busnes y dyfodol orau ac yn ehangu effeithiolrwydd gweithredol.

23. Rhoddwyd ystyriaeth i gynaliadwyedd drwy gydol y gwaith arfarnu. Gwnaed yr argymhellion gan gadw dyfodol hirdymor yr Awdurdod mewn cof ac mae'r rheini a fydd yn debygol o gael eu heffeithio gan y penderfyniad wedi cael eu cynnwys yn y broses. Mae'r penderfyniad i leoli'r swyddfa yn ystad Llywodraeth Cymru wedi sicrhau agwedd integredig drwy gynnig ateb o ran lleoliad a fydd yn galluogi'r Awdurdod i gyfrannu at ymrwymiadau carbon isel Llywodraeth Cymru.

24. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o rannu cyfleusterau cydwasanaethau amrywiol, lle gallai'r Awdurdod ddefnyddio darpariaeth bresennol y gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft rhai o'i wasanaethau corfforaethol.

## Y camau a gymerwyd

25. Cafodd y gwaith y tu ôl i'r arfarniad hwn ei drafod gyda'r Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol ym mis Ionawr 2016, mis Mehefin 2016, ac eto ym mis Medi. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â gofynion gweithredol yr Awdurdod, y strategaeth leoli, codi tâl am y swyddfa a'r broses fyddai'n arwain at y penderfyniad terfynol.

26. **Cam 1** – y cam cyntaf oedd chwilio am eiddo fyddai'n cynnig posibiliadau yn ystad Llywodraeth Cymru, o fewn y sector cyhoeddus ehangach a'r sector preifat. Gwnaed hyn gan yr Is-adran Gwasanaethau Proffesiynol Busnes ac Eiddo a chwiliwyd am opsiynau ledled Cymru lle roedd arwynebedd llawr addas ar gael.

27. Dros hynt yr arfarniad cychwynnol hwn, cadarnhaodd yr Is-adran na fyddai rhent yn cael ei godi ar yr Awdurdod pe bai'n cael ei leoli yn ystad Llywodraeth Cymru, tra byddai opsiynau i ymgartrefu mewn eiddo sector cyhoeddus a phreifat yn golygu talu rhent yn ôl gwerth y farchnad.

28. Mae'n hanfodol sicrhau bod y lleoliad a ddewisir yn cynnig gwerth am arian tra hefyd yn bodloni gofynion busnes yr Awdurdod. Byddai defnyddio adeilad sydd ar gael yn ystad bresennol Llywodraeth Cymru yn bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod (manylion ar dudalen 9) ac felly'n fwy effeithlon o ran defnyddio adnoddau.

*29.* ***Penderfynwyd bryd hynny y byddai'r Awdurdod yn cael ei leoli yn ystad Llywodraeth Cymru.***

30. O ganlyniad i hyn, cafodd eiddo'r sector cyhoeddus a ddynodwyd drwy edrych ar y gronfa ddata e-pims, yng Nghaernarfon a Pharc Dewi Sant, Caerfyrddin eu diystyru gan na fyddent yn cynnig gwerth am arian/yn fforddiadwy. Yn yr un modd, diystyrwyd opsiynau'r sector preifat yn Abertawe, Caerdydd, Bae Colwyn a Llanelwy hefyd.

31. **Cam 2** - yn yr arfarniad o opsiynau cychwynnol, ystyriwyd chwe eiddo yn ystad Llywodraeth Cymru. Lleoliadau'r eiddo hyn oedd:

- Cyffordd Llandudno
- Aberystwyth
- Merthyr Tudful
- Trefforest
- Caerdydd
- Caerfyrddin

32. Y meini prawf cyntaf a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arfarniad cychwynnol oedd:

- Argaeledd – a fyddai gofod ar gael o fis Hydref 2017?
- Ymarferoldeb – a fyddai'r lleoliad yn darparu man gweithio diogel ac ar wahân?

33. Ar y pwynt hwn, codwyd amheuon am leoliad Rhodfa Padarn, Aberystwyth gan yr adran Rheoli Cyfleusterau. Mae pedwar llawr i'r adeilad gyda'r llawr gwaelod yn gyfuniad o ardaloedd cyhoeddus a phreifat. Nid oes man addas ar gael ar y llawr gwaelod. Mae'r tri llawr uchaf yn esgyll agored sy’n edrych dros yr atriwm canolog. Mae'r adeilad yn cael ei awyru'n naturiol. Fe'i ddyluniwyd i ganiatáu i'r aer lifo’n rhwydd drwy'r mannau hyn.

34. Pe penderfynwyd bod Aberystwyth yn lleoliad addas ar gyfer yr Awdurdod, byddai’n ofynnol darparu asgell gyfan. Byddai hefyd angen ystyried gosod sgrin rhwng swyddfa’r Awdurdod a’r atriwm agored i sicrhau preifatrwydd. Byddai'r arwynebedd dan sylw'n sylweddol fwy na'r hyn oedd yn ofynnol gan yr Awdurdod. Er bod digon o le gwag yn swyddfa Aberystwyth ar hyn o bryd i’w gwneud yn bosib neilltuo asgell gyfan, ni fyddai hyn yn ddefnydd effeithiol o’r gofod a gall lleoliadau eraill yn ystad Llywodraeth Cymru gynnig gofod sy'n fwy priodol o ran maint ac sydd ar wahân.

35. Er gwaethaf y pwyntiau a nodir uchod, cafodd Aberystwyth ei gynnwys fel lleoliad yng ngham nesaf yr arfarniad.

36. **Cam 3 -** arfarnwyd yr opsiynau ar y rhestr fer yn erbyn y Ffactorau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant a ganlyn:

- Y gallu i ddenu a chadw staff medrus
- Pa mor agos mae’r lleoliad i’r rhanddeiliaid
- Pa mor agos mae’r lleoliad i’r cwsmeriaid
- Sgiliau yn y Gymraeg

37. Cafodd y gofyniad ar gyfer sgiliau yn y Gymraeg ei ddileu o'r arfarniad yn ystod y broses sgorio. Nododd y tîm pa sgiliau Cymraeg fyddai eu hangen er mwyn i’r Awdurdod ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Roedd y sgiliau priodol yn bodoli yng Nghyffordd Llandudno, Aberystwyth a Chaerfyrddin. Oherwydd natur ranbarthol Merthyr Tudful, Caerdydd a Threfforest a'r rhagdybiaeth y byddai staff yn teithio rhwng y tair swyddfa hyn, cadarnhawyd bod y gofyniad o ran sgiliau yn y Gymraeg yn cael ei fodloni yn y pum lleoliad felly cafodd ei ddileu o'r arfarniad. Mae rhagor o fanylion i'w gweld ar dudalen 28 yn Atodiad B.

38. Mae manylion canlyniad yr arfarniad wedi'u nodi ar dudalen 16 ym matrics yr arfarniad o'r opsiynau ac maent wedi'u rhestru yn ôl blaenoriaeth a phwysigrwydd:

- Y gallu i ddenu a chadw staff medrus
- Pa mor agos mae’r lleoliad i’r rhanddeiliaid
- Pa mor agos mae’r lleoliad i’r cwsmeriaid

## Gofynion gweithredol a Ffactorau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant

39. Ar ôl ystyried argaeledd ac ymarferoldeb y lleoliadau ar y rhestr fer, ystyriwyd gofynion gweithredol eraill a'r tri ffactor hanfodol ar gyfer llwyddiant a ddefnyddiwyd i sgorio yn yr arfarniad. Gellir gweld crynodeb o'r rhain isod. Mae'r rhain wedi cael eu cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet, y Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol a byrddau llywodraethu perthnasol Rhaglen Weithredu'r Awdurdod (Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Prosiect Llywodraethiant a Threfniadaeth yr Awdurdod).

### Gofynion gweithredol eraill

40. Gwerth am arian/pa mor fforddiadwy yw'r lleoliad? - yn dilyn y penderfyniad i beidio â chodi rhent ar yr Awdurdod, yr unig gostau sy'n parhau yw'r rhai sy'n ymwneud ag addasu'r lleoliad i ddarparu ardal waith ddiogel, ar wahân. Gan nad yw'r costau hyn yn amlwg eto a'u bod yn debygol o amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd, ni fyddai sgorio hyn yn ychwanegu unrhyw werth i'r arfarniad. Pe bai'r costau hyn yn codi, rhagwelir y byddent oddeutu £30-40K ac y gellid ysgwyddo hyn o'r adnodd sydd ar gael.

41. Trafnidiaeth gyhoeddus - ymchwiliwyd i argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n bosib cyrraedd yr holl leoliadau sy'n opsiynau ar y rhestr fer ar y bws neu'r trên. Nod yr Awdurdod yw denu gweithlu amrywiol. Un ffordd o annog hyn yw drwy sicrhau bod modd teithio'n hawdd i'r lleoliad, beth bynnag fo amgylchiadau'r unigolion.

42. Addasrwydd gweithredol - Mae'r Is-adran Gwasanaethau Busnes Proffesiynol ac Eiddo wedi darparu manylion ynghylch addasrwydd ymarferol pob opsiwn, hy yr arwynebedd llawr sydd ar gael, mynediad at ystafelloedd cyfarfod, cyfleusterau parcio, trefniadau TGCh. Mae rhagor o fanylion ynghylch yr addasrwydd gweithredol i'w weld yn Atodiad A. Gan fod y rhan fwyaf o'r safleoedd yn debyg, ni fyddai sgorio'r agweddau hyn yn ychwanegu at yr arfarniad.

43. Ansawdd yr amgylchedd waith - cafodd hwn ei gynnwys yn wreiddiol pan oedd opsiwn i ddewis lleoliad o fewn y sector cyhoeddus ehangach neu'r sector preifat. Gan ein bod yn gwybod yn awr y bydd y lleoliad yn ystad Llywodraeth Cymru, bydd pob opsiwn yn bodloni'r gofynion hanfodol o ran ansawdd.

### Ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant

44. Nodir tri gofyniad fel Ffactorau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant.

Y gallu i ddenu a chadw gweithlu sydd â'r sgiliau arbenigol angenrheidiol

45. Y ffactor mwyaf hanfodol ar gyfer sicrhau llwyddiant i'r Awdurdod fydd ei allu i ddenu a chadw gweithlu medrus. Mae'r gofyniad hwn yn hollbwysig o'r cychwyn cyntaf ac ar gyfer y dyfodol, ond bydd y ffocws arno'n newid gyda threigl amser. Yn ystod y cyfnod sefydlu a phontio bydd y ffocws ar sicrhau

bod yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol, yn enwedig arbenigedd o ran trethi Cymru. Yn y tymor hirach, bydd angen i'r Awdurdod ddatblygu gweithlu ag amrywiaeth o sgiliau arbenigol, proffesiynol, yn enwedig ym meysydd y gyfraith, cydymffurfio â threthi, data a digidol.

46. Her fawr i greu gweithlu galluog, cynaliadwy ym maes gweinyddu trethi fydd maint bychan yr Awdurdod. Nid yw'n bosib amgyffred y bydd staff yn gallu meithrin arbenigedd ddigonol yn y meysydd sgil uchel hyn drwy weithio yn yr Awdurdod yn unig. Byddant hefyd wedi'u cyfyngu o ran cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa. Yn ei dro, bydd hyn yn effeithio ar allu'r Awdurdod i ddenu a chadw unigolion o'r fath. Er mwyn gallu cynnig cynllun datblygu ar gyfer yr amrywiaeth o swyddi sgil uchel yn yr Awdurdod, bydd angen sicrhau ei fod wedi'i leoli'n agos at sefydliadau eraill lle mae modd defnyddio sgiliau tebyg.

47. Staff Llywodraeth Cymru fydd y ffynhonnell gyntaf ar gyfer recriwtio i'r Awdurdod yn enwedig yn ystod y cyfnod sefydlu. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys y 15 aelod o staff sydd ar hyn o bryd yn rhan o dîm Gweithredu'r Awdurdod a'r staff ehangach yn Nhrysorlys Cymru. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn meddu ar wybodaeth fanwl o drethi Cymru a'r dull sy'n cael ei ddatblygu i'w gweithredu. Bydd y risg o ran sicrhau corff llwyddiannus yn sylweddol uwch os nad yw o leiaf rhai o'r arbenigwyr pwnc hyn yn cael swyddi yn yr Awdurdod.

48. Mae'n debygol y bydd angen i'r Awdurdod ddibynnu ar arbenigedd CThEM hefyd. Byddai hyn yn golygu denu staff CThEM i adleoli i'r ardal neu, fel arall, i deithio i swyddfa'r Awdurdod. Mae Treth Dir y Dreth Stamp y DU (a fydd yn cael ei disodli gan y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru) yn cael ei rheoli yn swyddfa CThEM ym Mirmigham. Mae staff cydymffurfiaeth yn gweithio mewn nifer cyfyngedig o leoliadau ledled Cymru, gyda'r prif leoliadau yn Abertawe, Caerdydd a Wrecsam.

49. Er hynny, yn ystod y tymor canolig bydd CThEM yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth o ganolfan newydd yng Nghaerdydd. Rydym yn rhagweld efallai y bydd gan rai o'r staff medrus hyn ddiddordeb mewn cyfleoedd benthyg byrdymor neu am gyfnod hirach gyda'r Awdurdod. Fodd bynnag, wrth edrych tuag at y dyfodol, dim ond yn yr Awdurdod ac yn swyddfa CThEM yng Nghaerdydd y bydd staff yn gallu datblygu gyrfa ym maes trethi. I'r perwyl hwn, bydd angen lleoli yr Awdurdod mor agos â phosib at gartref y sgiliau hyn a ble y bydd eu hangen yn y dyfodol.

50. Mae rhaglen i gau swyddfeydd CThEM ledled y DU yn yr arfaeth ar hyn o bryd a bydd yn parhau tan 2020. Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â swyddogion CThEM fel rhan o Brotocol y Gwasanaeth Sifil i edrych ar gyfleoedd i osgoi dileu swyddi yng Nghymru. Bydd sgwrs reolaidd yn cael ei chynnal gyda CThEM am eu bwriad i gau swyddfeydd fel ein bod yn gallu asesu'r effaith ar swyddi'r gwasanaeth sifil yng Nghymru ac ystyried unrhyw opsiynau posib i'r Awdurdod.

Pa mor agos mae'r lleoliad i'r partneriaid cydweithredol a'r rhanddeiliaid

51. I sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cydweithredol, bydd angen iddynt fod yn agos i'r Awdurdod:

- Llywodraeth Cymru ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion Trysorlys Cymru mewn perthynas â pholisi treth a chasglu trethi. Bydd cydweithio'n digwydd yn rheolaidd ac ar brydiau'n ddyddiol. Dyma fydd yr achos yn ystod y cyfnod o sefydlu'r Awdurdod ac yn ystod y tymor canolig a'r tymor hir wrth i bolisïau treth newydd gael eu datblygu. Bydd gweithio trawsadrannol yn arfer cyffredin;
- Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r gwaith cydymffurfio, efadu a gorfodi mwy cymhleth. O ran gwaith achos, efallai y bydd angen cysylltu'n ddyddiol ar rai adegau;
- CThEM mewn perthynas â thrafodaethau ynghylch polisi gweithredu treth a rhannu gwybodaeth. Mae trafodaethau gyda CThEM yn mynd rhagddynt i rannu adnoddau, drwy secondiadau posib, cysgodi, rhannu swyddi a hyfforddi. Efallai y bydd angen rhyngweithio'n amlach yn ystod y cyfnod pontio wrth drosglwyddo gwybodaeth a chyngor ar bolisi. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, efallai y bydd hyn yn digwydd yn llai aml. Bydd angen cydlynu materion cydymffurfio cyfreithiol cymhleth megis eiddo trawsffiniol.

Pa mor agos mae'r lleoliad i'r cwsmeriaid

52. Bydd yr Awdurdod yn gweithio mewn ffordd ddigidol yn gyntaf, gan gynnig gwasanaethau i gwsmeriaid ledled Cymru yn bennaf ar ffurf ddigidol. Er hyn, bydd angen i'r Awdurdod weithio'n agos gyda'i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod sefydlu ynghyd ag wrth i'r gwaith barhau.

53. Yn ystod y cyfnod sefydlu a phontio bydd angen i'r Awdurdod wneud gwaith sylweddol gyda'i gwsmeriaid a'u hasiantau er mwyn llunio'r systemau a'r prosesau y bydd y cwsmeriaid yn eu defnyddio, yn benodol y rhyngwyneb digidol a'r canllawiau. Bydd angen iddynt hefyd gyfathrebu â'u cwsmeriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a sicrhau bod ganddynt bopeth y mae ei angen arnynt er mwyn trosglwyddo'n ddi-drafferth i system dreth Cymru.

54. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, bydd angen cyswllt cyson mewn perthynas â gwaith achos cydymffurfiaeth ac at ddibenion archwilio a gorfodi. Bydd cael eu lleoli'n agos at eu cwsmeriaid yn sicrhau gwell darpariaeth.

## Gofynion Gweithredol Eraill

### Nifer y lleoliadau - safbwynt gweithredol

55. Ystyriwyd a fyddai'n ymarferol gwasgaru swyddfeydd yr Awdurdod ond rydym wedi dod i'r casgliad, o safbwynt gweithredol o leiaf, nad dyma'r ffordd orau o gefnogi anghenion y corff newydd na darparu gwerth am arian. Y rheswm am hyn yw er y bydd yr Awdurdod yn fach, o ran nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi, bydd angen iddo gadw at safonau caeth o ran diogelwch yn sgil sensitifrwydd a gwerth ei waith.

56. O ran maint yr Awdurdod, mae hyn yn golygu y byddai’n hynod o heriol creu unedau busnes hyfyw ar wahân. Bydd y rhan fwyaf o unedau busnes yr Awdurdod mewn ffigurau un digid. Daeth yn glir o'r trafodaethau gyda Revenue Scotland (RS) na fyddai sefydlu, er enghraifft, swyddogaeth canolfan alwadau ar wahân yn gwneud synnwyr yn economaidd yn sgil y swm isel iawn o alwadau y bydd yr Awdurdod yn debyg o'u derbyn. Yn hytrach na neilltuo staff i ateb galwadau yn unig, mae RS wedi hyfforddi'r tîm cymorth i ateb galwadau a hefyd i ddarparu gwasanaethau cymorth ehangach i'r tîm RS. Mae manteision y dull gweithredu hwn yn llawer haws eu cyflawni os yw'r timau cymorth wedi'u lleoli gyda gweddill y sefydliad. O safbwynt staff cymorth RS, mae ganddynt fynediad at well lwybr gyrfa a chyfleoedd ehangach na'r hyn fyddai wedi bod ganddynt mewn canolfan alwadau yn unig.

57. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried tybed a fyddai modd gosod nifer o swyddogaethau'r Awdurdod gyda'i gilydd a'u cyflawni mewn lleoliad ar wahân i'r brif swyddfa.

58. Er enghraifft, ystyriwyd creu swyddogaeth i gynnal y gwasanaethau canlynol:

- Delio â'r post
- Sganio dogfennau i system rheoli achos
- Mewnbynnu data o'r ffurflenni papur i'r system dreth
- Bancio sieciau

59. Gallai'r swyddogaethau hyn gael eu cyflawni mewn lleoliad gwahanol i brif swyddfa'r Awdurdod, ond mae rhai materion allweddol i'w hystyried wrth bwyso a mesur manteision dull gweithredu o'r fath.

60. Yn benodol, byddai gwahanu gweithgarwch allweddol i dîm mor fach yn gadael yr Awdurdod yn fwy agored i ddioddef absenoldeb/symudiadau staff yn lleol. Bydd yr Awdurdod yn gwbl ddibynnol ar wasanaethau allweddol o'r fath, a bydd unrhyw amharu ar y gwasanaeth yn sgil colli staff yn cael effaith sylweddol ar y gallu i redeg ei wasanaethau yn esmwyth. Nid oes gan dîm bach, yn ôl ei natur, yr un lefel o hyblygrwydd ag unedau mwy, felly maent yn fwy bregus ac yn llai cadarn. Mater sylweddol arall yw'r perygl o fethu darparu digon o cymorth o ran diogelwch neu oruchwyliaeth staff i ochel rhag y perygl o dwyll.

61. Ar lefel ymarferol, bydd rhaid i'r Awdurdod gael mesurau diogelwch priodol. Er enghraifft, gan gofio natur gyfrinachol y dogfennau treth dan sylw (ffurflenni treth, gohebiaeth ynghylch ymholiadau, archwiliadau, achosion sifil ac o bosib rhai troseddol) byddai angen ardal waith ar wahân a rheoli'r mynediad ato. Ar ben hynny, byddai angen sêff (ar gyfer sieciau) ac unedau storio diogel ar gyfer papurau cyfrinachol. Byddai cael swyddfa ategol ar wahân o bosib yn cynyddu costau darparu'r gwasanaeth o ran y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol.

**Nifer y lleoliadau - safbwynt y cwsmer**

62. Fel y dywedwyd uchod, bydd angen i'r Awdurdod fod mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r cwsmeriaid. Bydd yn cynnig gwasanaethau i bob rhan o Gymru, yn bennaf drwy sianeli digidol. Fodd bynnag, bydd hefyd angen ymweld ag asiantau a gweithredwyr tirlenwi o bryd i'w gilydd, ac fel y gwelir yn Atodiad C mae'r mwyafrif o'r trethdalwyr a'r asiantau wedi'u crynhoi o amgylch prif ardaloedd trefol Cymru. Byddai lleoli swyddfa'n agos at y crynhoad uchaf o safleoedd tirlenwi ac asiantau trethdalwyr yn galluogi staff yr Awdurdod i gyfarfod cyfran dda o'r cwsmeriaid yn gymharol hawdd ac effeithiol. Fodd bynnag, nid oes un lleoliad unigol all wasanaethu pob rhan o Gymru yn y ffordd orau bosib, felly ystyriwyd sut y gallai'r Awdurdod ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cynnig digidol ar draws Cymru.

63. Bydd yr Awdurdod am gefnogi trethdalwyr a'u hasiantau drwy'r newid i'r system dreth er mwn iddynt fod yn ymwybodol ac yn barod i ymateb i'r trethi datganoledig pan fyddant yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018. Bydd yn gofyn am gysylltiad gweithredol (gweithdai, clinigau a gweminarau) ar draws Cymru yn arbennig yn arwain at fis Ebrill 2018, ond hefyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth hwn o bosib fyddai creu swyddogaethau symudol i'r Awdurdod, sy'n cael eu cefnogi drwy drefniadau gweithio hyblyg wedi'u lleoli y tu allan i'r brif swyddfa. Byddai presenoldeb yn y gogledd yn ateb gofynion allgymorth.

64. Yn dilyn hynny, er y dylai'r trethdalwyr rheolaidd a'u hasiantau fod wedi ymgyfarwyddo gyda'r systemau a'r gweithdrefnau ar ôl y flwyddyn gyntaf, mae'n debyg y byddai parhau i gael presenoldeb ar wahân i brif swyddfa'r Awdurdod yn cynnig manteision parhaus i gwsmeriaid. Er enghraifft, gallai staff symudol o'r fath helpu asiantau i symud o waith papur i system ddigidol. Byddai staff sy'n cyflawni swyddogaethau o'r fath hefyd yn datblygu sgiliau a gwybodaeth hynod berthnasol i'r Awdurdod.

## Rhagdybiaethau'r Arfarniad

### Rhagdybiaethau

65. Gwnaed y rhagdybiaethau canlynol:

- Mae angen 35 swydd gyfwerth ag amser llawn, 30 desg tua 350 $m^2$. Caniateir 50 $m^2$ arall lle nad oes ystafelloedd cyfarfod ar y cyd ar gael.
- Mae angen gofod ar wahân, â mynediad diogel.

### Eithriadau

66. Ni ystyriwyd y canlynol yn y dadansoddiad hwn:

- Ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer ad-drefnu'r gofod a bennwyd.
- Ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer y systemau TGCh perthnasol, gan gynnwys seilwaith.
- Ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer costau dodrefn.

## Arfarnu'r Opsiynau

### Arfarniad cychwynnol

<u>Eiddo a ddiystyrwyd</u>

67. Wrth ystyried opsiynau ystad Llywodraeth Cymru, diystyrwyd sawl eiddo, yn bennaf ar y sail ganlynol:

i) ni fyddai'r eiddo'n barod ar gyfer yr Awdurdod erbyn y dyddiad gofynnol;

ii) nid oedd modd cynnig cyfnod priodol o les (5 mlynedd) - wedi'u pennu i gau dan Strategaeth Lleoli Llywodraeth Cymru 2015-20; neu,

iii) nid oedd yr anghenion gweithredol sylfaenol wedi'u bodloni.

## Rhestr fer o'r lleoliadau

68. Ar ôl yr arfarniad cychwynnol, gwnaed rhestr fer o chwe lleoliad posibl:

- Opsiwn 1: Cyffordd Llandudno
- Opsiwn 2: Rhodfa Padarn, Aberystwyth
- Opsiwn 3: Rhyd-y-car, Merthyr Tudful
- Opsiwn 4: Canolfan QED, Trefforest
- Opsiwn 5: Parc Cathays, Caerdydd
- Opsiwn 6: Teras Picton, Caerfyrddin

69. Mae'r rhestr fer wedi cael ei chymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet, y Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol a byrddau llywodraethu perthnasol Rhaglen Weithredu'r Awdurdod (Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Prosiect Llywodraethiant a Threfniadaeth yr Awdurdod).

70. Fe gafodd bob un o'r lleoliadau ar y rhestr fer eu hasesu eto yn erbyn dwy elfen hanfodol ar gyfer llwyddiant: argaeledd ac ymarferoldeb. Roedd yr ymarfer hwn yn cydnabod y gallai swyddfa Aberystwyth gynnig lle, ond byddai hynny ar raddfa llawer mwy na'r hyn sy'n ofynnol gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, cynigiwyd yr opsiwn hwnnw i'w arfarnu ymhellach.

71. Fe gafodd y chwe opsiwn eu hasesu yn erbyn y ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddiant a amlinellwyd ar dudalennau 9-11. Ceir disgrifiad o'r fethodoleg sgorio ar gyfer pob un o'r gofynion isod (tudalen 17), gyda rhagor o wybodaeth i ategu'r sgôr yn Atodiadau B a C.

## Crynodeb - matrics yr arfarniad o'r opsiynau

| | **Pwysoliad** | **Opsiwn 1** Cyffordd Llandudno | **Opsiwn 2** Rhodfa Padarn Aberystwyth | **Opsiwn 3** Rhyd-y-car Merthyr Tudful | **Opsiwn 4**[1] Canolfan QED Trefforest | **Opsiwn 5** Parc Cathays Caerdydd | **Opsiwn 6** Teras Picton Caerfyrddin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithlu arbenigol (LIC)**<br>**Gweithlu arbenigol (CThEM)** | Uchel<br>Canolig | 9<br>2 | 15<br>4 | 18<br>8 | 18<br>10 | 18<br>12 | 12<br>6 |
| **Pellter at randdeiliaid**<br>LIC<br>CNC | Canolig<br>Dim | 2<br>1 | 4<br>2 | 8<br>4 | 10<br>5 | 12<br>6 | 6<br>3 |
| **Pellter at gwsmeriaid**<br>LDT<br>LTT | Dim<br>Dim | 2<br>3 | 1<br>2 | 6<br>1 | 5<br>5 | 4<br>5 | 3<br>4 |
| **Cyfanswm** | | **19** | **28** | **45** | **53** | **57** | **34** |

**Pwysoliad:** Uchel = x3
Canolig = x2

[1]Mae strategaeth leoli Llywodraeth Cymru yn nodi cyfle i dynnu'n ôl o swyddfa QED Trefforest (tua 2020), yn ddibynnol ar gytuno ar yr achos busnes.

## Dull sgorio

| Y Meini Prawf | Disgrifiad | Sgôr | Rheswm dros bwysoli | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|
| Gweithlu arbenigol (1) LlC<br><br>Gweithlu arbenigol (2) CThEM | Nifer yr aelodau o staff LlC ym mhob lleoliad sy'n rhan o'r proffesiynau canlynol: Adnoddau Dynol, Cyfreithiol, Dadansoddi, TG/Digidol a Threth (rhanbarthau wedi'u gosod mewn trefn gan y rhagdybir y bydd staff yn fodlon teithio o fewn y rhanbarth).<br><br>Pellter ar hyd y ffordd o brif safleoedd CThEM i bob un o'r lleoliadau. | Wedi'u gosod mewn trefn a'u sgorio 3,4,5 a 6 (gan mai pedwar rhanbarth sydd)<br><br>Wedi'u gosod mewn trefn a'u sgorio 1, 2, 3, 4, 5 neu 6. | Uchel ar gyfer Trethi, Dadansoddi a Digidol. Canolig ar gyfer Adnoddau Dynol a Chyfreithiol.<br><br>Mae sicrhau bod gweithlu medrus yn ei le yn barod ar gyfer y diwrnod cyntaf ac yn y tymor hir yn hanfodol bwysig ar gyfer llwyddiant yr Awdurdod.<br><br>Uchel. O ran gallu i adeiladu gan gydweithwyr CThEM. | LLC: HRIT<br><br>Cynllluniwr siwrnai yr AA |
| Pellter at randdeiliaid: LlC<br>CNC | Amser teithio (ar y ffordd) o leoliadau'r prif randdeiliaid i bob lleoliad | Wedi'u gosod mewn trefn a'u sgorio 1, 2, 3, 4, 5 neu 6. | Uchel. Bydd yr Awdurdod yn cydweithio'n agos iawn gyda LlC o ran datblygu polisi a deddfwriaeth newydd ar dreth.<br>Bydd yr Awdurdod hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda CNC ar gydymffurfiaeth a gorfodaeth. | Cynllluniwr siwrnai'r AA |
| Pellter at gwsmeriaid: LDT<br><br>LTT | Nifer y safleoedd tirlenwi sydd o fewn 25 milltir i'r lleoliad<br><br>Nifer y trafodiadau tir o fewn ardal yr Awdurdod Lleol | Wedi'u gosod mewn trefn a'u sgorio 1, 2, 3, 4, 5 neu 6.<br><br>Wedi'u sgorio 1, 2, 3, 4 neu 5 yn ôl pa un o'r pum ystod sy'n berthnasol (gweler Atodiad C). | Canolig. Mae'n bwysig i staff yr Awdurdod fod yn agos at y cwsmeriaid gan y bydd angen ymwneud â nhw'n rheolaidd. | LLC: Polisi Treth a Deddfwriaeth, Dadansoddi Cyllidol a Strategaeth a KAS (drwy CThEM) |

## Casgliadau

*72.* Casgliad yr arfarniad hwn yw mai de ddwyrain Cymru yw'r rhanbarth fwyaf effeithiol yn weithredol i leoli'r Awdurdod, a hynny ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldebau'n hawdd o’r cychwyn cyntaf a pharhau i weithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

73. Mae'r casgliad hwn yn unol â nodau ac amcanion strategaeth leoli Llywodraeth Cymru, sy'n nodi:

> *“We need to ensure that we operate from locations that best support our future business needs and enhance our operational effectiveness. Our estate must be affordable. We must continue to transform our workplaces, providing the supportive environments, technologies and facilities that will fully enable our staff.”*

74. Drwy leoli'r Awdurdod yn y de-ddwyrain, bydd modd iddo gefnogi anghenion busnes y cwsmeriaid yn y ffordd orau, gan fod y mwyafrif ohonynt wedi'u crynhoi yn y rhan honno o Gymru. Bydd hefyd mewn lle da i ddenu a chadw'r gweithlu arbenigol sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yr adran newydd.

**Argymhelliad i) Dylid lleoli prif swyddfeydd yr Awdurdod yn y de-ddwyrain gan mai dyma'r ardal sy'n bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod orau.**

75. Drwy ddefnyddio lle sydd ar gael ar hyn o bryd yn ystad Llywodraeth Cymru, bydd yn bosibl sicrhau bod anghenion swyddfa'r Awdurdod yn parhau i fod yn fforddiadwy. Ar ben hynny, mae'r swyddfeydd yn aml yn newydd neu'n cael eu hadnewyddu, ac yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy a fydd yn ceisio lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

76. Mae gan Lywodraeth Cymru dair swyddfa addas yn y de-ddwyrain a allai fodloni anghenion yr Awdurdod. Mae Parc Cathays yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd yn unol â strategaeth leoli Llywodraeth Cymru. Pan fydd y gwaith wedi gorffen, bydd lle ar gyfer tua 800 aelod arall o staff, mewn gweithle sydd wedi'i drawsnewid i roi amgylchedd, technoleg a chyfleusterau cefnogol a fydd yn galluogi staff.

77. Bydd y buddsoddiad ym Mharc Cathays yn gyfle i resymoli'r ystad yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain, gan gynnwys cyfle i Lywodraeth Cymru gyd-leoli gweithrediadau (tua 2020). Un o'r cyd-leoliadau arfaethedig yw'r cyfle i symud swyddi presennol o QED Trefforest i Barc Cathays, canol Caerdydd, a chael gwared â’r lleoliad yn Nhrefforest.

78. Gan gofio'r ansicrwydd ynghylch dyfodol tymor hir QED Trefforest, edrychwyd i weld a fyddai’n bosib i’r lleoliad fod ar gael y tu hwnt i’r amserlen hon; mae hyn bellach wedi’i gadarnhau.

79. Gall Parc Cathays gynnig lle i'r Awdurdod, ond i wneud hyn byddai angen adleoli swyddogaeth arall â nifer gyfatebol o staff, o bosib i swyddfa arall. Pe bai angen gwneud hyn, byddai angen dod i gytundeb ar y trefniadau. O'r gwaith arfarnu, Parc Cathays fyddai orau ar gyfer cyflawni gofynion gweithredol yr Awdurdod.

80. Byddai Merthyr Tudful yn medru cyflawni gofynion gweithredol yr Awdurdod, ond mae rhai agweddau o'i sgôr yn sylweddol is na Pharc Cathays. Un elfen arbennig yw'r sgôr isel mewn perthynas â'r pellter at gwsmeriaid LTT (mae cryn dipyn o eiddo Blaenau'r Cymoedd yn debyg o fod yn is na'r trothwy treth, sy'n golygu iddo gael sgôr isel). Hon fydd prif dreth yr Awdurdod, a fydd yn cynnig y mwyafrif o gwsmeriaid/asiantau. Hefyd mae cyferbyniad amlwg rhwng sgôr y gweithlu arbenigol (CThEM), lle efallai y bydd yn anoddach denu a chadw staff yn swyddfa Merthyr, yn arbennig gan fod CThEM yn sefydlu prif ganolfan yng Nghaerdydd.

**Argymhelliad ii) Mae gan Lywodraeth Cymru dair swyddfa yn y de-ddwyrain a fyddai'n gallu bodloni gofynion yr Awdurdod o bosib (Parc Cathays, Merthyr Tudful a QED, Trefforest).**

81. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gynnig gwasanaeth digidol Cymru gyfan i drethdalwyr a'u hasiantau ac i helpu o leiaf gyda'r newidiadau i'r system dreth, mae'r gwerthusiad hefyd yn argymell creu swyddogaeth symudol sy'n cael ei chefnogi gan drefniadau gweithio hyblyg ac sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r brif swyddfa yn y de-ddwyrain.

**Argymhelliad iii) Dylid sefydlu swyddogaeth symudol ar gyfer yr Awdurdod i ffwrdd o'r brif swyddfa i ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn ehangach. Awgrymir y dylid cael cynrychiolaeth yn y gogledd.**

**Atodiad A**

# ADDASRWYDD GWEITHREDOL YR EIDDO AR Y RHESTR FER

## Opsiwn 1 - Cyffordd Llandudno

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Gellid pennu ardal wrth ei hun, ac ychydig iawn o waith fyddai angen. |
| Arwynebedd | Gellid cynnig nifer o opsiynau, yn ddibynnol ar adleoli timau sydd yno ar hyn o bryd. |
| Ystafelloedd cyfarfod | Rhannu defnydd o 10 ystafell. |
| Gofod hyblyg | Gofod hyblyg ar gael ar gyfer ehangu o bosib yn y dyfodol. |
| Maes parcio | Mae tri maes parcio gan yr adeilad, gan gynnwys gofod parcio hygyrch, ar sail y cyntaf i'r felin. |
| Trenau | Mae gorsaf drenau Cyffordd Llandudno 20 munud ar droed o swyddfeydd Llywodraeth Cymru. |
| Bysiau | Mae'r swyddfa wedi'i lleoli o fewn pellter cerdded i'r rhwydweithiau bysiau. |
| Beicio | Mae nifer o lwybrau beicio y gellid eu defnyddio i gyrraedd at y swyddfa, ac mae rhesel feiciau ar gael. |

**Crynodeb**
Mae'r swyddfa hon yn bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod, ond fel lleoliad, hon gafodd y sgôr isaf o'r chwe opsiwn ar y rhestr fer. Y rheswm pennaf am hyn yw'r pellter oddi wrth y prif randdeiliaid, cwsmeriaid a'r gweithlu medrus gofynnol ar gyfer yr Awdurdod. Felly nid yw'n lleoliad addas ar gyfer yr Awdurdod. Fodd bynnag, gellid ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer gwaith allgymorth i sicrhau bod cwsmeriaid yn medru cyrraedd at wasanaethau staff symudol yr Awdurdod.

## Opsiwn 2 - Rhodfa Padarn, Aberystwyth

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Pennu adain gyfan, ac angen gosod sgrin rhyngddi a'r atriwm agored i sicrhau preifatrwydd. |
| Arwynebedd | Gellid neilltuo adain gyfan, ond byddai hyn yn llawer mwy o ofod na gofynion yr Awdurdod. |
| Ystafelloedd cyfarfod | Rhannu defnydd o 11 ystafell. |
| Gofod hyblyg | Llawer mwy o ofod ar gael na'r hyn sy'n angenrheidiol. |
| Maes parcio | Mae maes parcio gan yr adeilad, gan gynnwys gofod parcio hygyrch, a weithredir ar sail y cyntaf i'r felin. |
| Trenau | Mae gorsaf drenau Aberystwyth 15 munud ar droed o swyddfeydd Llywodraeth Cymru. |
| Bysiau | Mae'r swyddfa wedi'i lleoli o fewn pellter cerdded i'r rhwydweithiau bysiau. |
| Beicio | Mae nifer o lwybrau beicio y gellid eu defnyddio i gyrraedd at y swyddfa, ac mae rhesel feiciau ar gael. |

**Crynodeb**
Pe penderfynwyd bod Aberystwyth yn leoliad addas ar gyfer yr Awdurdod, byddai'n ofynnol darparu adain gyfan. Byddai hefyd angen ystyried gosod sgrin rhyngddi a'r atriwm agored i sicrhau preifatrwydd. Byddai'r arwynebedd y gellid ei ddarparu'n sylweddol fwy na'r hyn oedd yn ofynnol gan yr Awdurdod. Er bod digon o le gwag ar hyn o bryd yn swyddfa Aberystwyth ac y byddai'n bosib dyrannu adain gyfan, ni fyddai hyn yn defnyddio'r gofod mewn ffordd effeithiol a gall lleoliadau eraill o fewn ystad Llywodraeth Cymru gynnig lle sy'n fwy priodol o ran maint ac yn fwy preifat.

Er gwaethaf y materion y tynnwyd sylw atynt uchod ynghylch y lle swyddfa sydd ar gael yn Aberystwyth, ystyriwyd y lleoliad mewn perthynas â bodloni prif ofynion gweithredol yr Awdurdod. O'r gwaith hwn, daethpwyd i'r casgliad nad y lleoliad hwn yw'r lle gorau i wasanaethu gofynion y cwsmeriaid na manteisio i'r eithaf ar allu'r Awdurdod i recriwtio a chadw gweithlu bach, arbenigol. Fodd bynnag, gellid ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer gwaith allgymorth i sicrhau bod cwsmeriaid yn medru cyrraedd at wasanaethau staff symudol yr Awdurdod.

**Opsiwn 3 – QED, Trefforest**

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Gellid pennu ardal wrth ei hun, ac ychydig iawn o waith fyddai angen. |
| Arwynebedd | Gellid cynnig nifer o ardaloedd, yn ddibynnol ar adleoli timau sydd yno ar hyn o bryd. |
| Ystafelloedd cyfarfod | Rhannu defnydd o 16 ystafell. |
| Gofod hyblyg | Gofod hyblyg ar gael ar gyfer ehangu o bosib yn y dyfodol. |
| Maes parcio | Mae dau faes parcio gan yr adeilad, gan gynnwys gofod parcio hygyrch, ar sail y cyntaf i'r felin. |
| Trenau | Mae gan Ystad Ddiwydiannol Trefforest orsaf drenau ei hun o fewn 5 munud ar droed i'r swyddfa.<br>Mae llwybr troed a lôn fach gul yn arwain at yr orsaf, ac mae sylw'n cael ei roi ar hyn o bryd i'r diffygion yn ymwneud â goleuadau stryd ger yr orsaf a mynediad at QED. |
| Bysiau | Mae gwasanaethau bws rheolaidd, gyda safleoedd bws tua'r gogledd a'r de yn union y tu allan i'r swyddfa. |
| Beicio | Ychydig iawn o lwybrau beicio heb draffig sydd ger yr orsaf. |

**Crynodeb**
Mae'r swyddfa hon yn bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod, er nad yw mor hygyrch ar gyfer teithio ar drên â rhai o'r opsiynau eraill. Fodd bynnag, mae'n sgorio'n gymharol dda o ran gofynion gweithredol eraill yr Awdurdod. Mae Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru'n gweld cyfle i dynnu yn ôl o'r swyddfa (tua 2019-20), yn amodol ar ymgynghoriad gyda'r staff a'r TUS. Byddai gadael QED Trefforest yn yr amserlen sy'n cael ei chynnig yn golygu mai opsiwn tymor byr yn unig fyddai'r lleoliad hwn i'r Awdurdod. Rydym wedi edrych ar hyn yn fanylach, ac wedi cael gwybod nad yw'r sefyllfa na'r amserlen ar gyfer tynnu yn ôl wedi'u cadarnhau hyd yma, a bod cyfle i sicrhau bod yr eiddo ar gael y tu hwnt i'r amserlen honno. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth Leoli'n rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau'r derbyniad cyfalaf ar gyfer yr eiddo ac yn rhoi diwedd ar ei phrif rwymedigaethau costau rhedeg o fewn y

cyfnod presennol o'r Strategaeth (felly cyn mis Mawrth 2020). Pe bai'r eiddo'n cael ei werthu, byddai lle i drosglwyddo staff i Barc Cathays, neu werthu ar y ddealltwriaeth bod yr Awdurdod eisoes yn denant. Yn yr ail achos, mae'n debyg y byddai'r Awdurdod yn gorfod talu rhent a thaliadau gwasanaeth yn y dyfodol.

**Opsiwn 4 - Merthyr Tudful**

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Gellid neilltuo ardal ar wahân. Mae'r swm o waith sydd angen ei wneud i gyflawni hyn eto i'w gadarnhau. |
| Arwynebedd | Tua 400 metr sgwâr. |
| Ystafelloedd cyfarfod | Rhannu defnydd o 10 ystafell. |
| Gofod hyblyg | Gofod hyblyg ar gael ar gyfer ehangu o bosib yn y dyfodol |
| Maes parcio | Mae dau faes parcio gan yr adeilad, gan gynnwys gofod parcio hygyrch, ar sail y cyntaf i'r felin. |
| Trenau | Yr orsaf agosaf yw Merthyr Tudful, sydd 15 munud ar droed o'r swyddfa. |
| Bysiau | Mae'r swyddfa wedi'i lleoli o fewn pellter cerdded i'r rhwydweithiau bysiau. |
| Beicio | Mae nifer o lwybrau beicio y gellid eu defnyddio i gyrraedd at y swyddfa, ac mae rhesel feiciau ar gael. |

**Crynodeb**
Mae'r swyddfa hon yn bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod ac yn sgorio'n dda o ran agosatrwydd at staff medrus, rhanddeiliaid a chwsmeriaid LDT, ond mae rhai agweddau sy'n sgorio tipyn yn is na Pharc Cathays. Yn benodol, dyma'r sgôr isaf mewn perthynas â'r pellter at gwsmeriaid LTT (mae cryn dipyn o eiddo Blaenau'r Cymoedd yn debyg o fod yn is na'r trothwy treth, sy'n golygu iddo gael sgôr isel). Hon fydd prif dreth yr Awdurdod, a fydd yn cynnig y mwyafrif o gwsmeriaid/asiantau. Hefyd mae cyferbyniad amlwg rhwng sgôr y gweithlu arbenigol (CThEM), ac fe gredir y bydd yn anoddach denu a chadw staff yn swyddfa Merthyr, yn arbennig gan fod CThEM yn sefydlu prif ganolfan yng Nghaerdydd.

**Opsiwn 5 - Parc Cathays**

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Gellid neilltuo ardal ar wahân. Mae'r swm o waith sydd angen ei wneud i gyflawni hyn eto i'w gadarnhau. |
| Arwynebedd | Tua 289 metr sgwâr ar gael, yn amodol ar adleoli timau presennol. |
| Ystafelloedd cyfarfod | Rhannu defnydd o 20 ystafell. |
| Gofod hyblyg | Nid oes lle i ehangu gan mai gofod cyfyngedig sydd ar gael. |
| Maes parcio | Gofod ar gael i staff cymwys yn yr adeilad, gan gynnwys gofod parcio hygyrch, a meter parcio gerllaw. |
| Trenau | Yr orsaf agosaf yw Cathays, sydd 5 munud ar droed o adeilad Parc Cathays. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhedeg bob 5 i 15 munud i Orsafoedd Heol y Frenhines a Caerdydd Canolog ac yn ôl. |

| | |
|---|---|
| Bysiau | Mae nifer o wasanaethau bysiau ar gael ger Parc Cathays. |
| Beicio | Mae nifer o lwybrau beicio y gellid eu defnyddio i gyrraedd at y swyddfa, ac mae rhesel feiciau ar gael. |

**Crynodeb**
Mae'r swyddfa hon yn bodloni gofynion gweithredol yr Awdurdod, er y byddai angen adleoli nifer cyfatebol o'r staff presennol o ardal addas o'r adeilad i ryddhau gofod i'r Awdurdod. Yr opsiwn hwn gafodd y sgôr uchaf o ran lleoliad, yn arbennig o ran y gweithlu medrus a'r agosatrwydd at randdeiliaid a chwsmeriaid.

**Opsiwn 6 - Teras Picton, Caerfyrddin**

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Gellid neilltuo ardal ar wahân. Mae'r swm o waith sydd angen ei wneud i gyflawni hyn eto i'w gadarnhau. |
| Arwynebedd | Mae bob llawr tua 420 metr sgwâr. Byddai'n bosibl rhannu ymhellach gyda chyfraniad o gyllid cyfalaf. |
| Ystafelloedd cyfarfod | Rhannu defnydd o 16 ystafell. |
| Gofod hyblyg | Gofod hyblyg ar gael ar gyfer ehangu o bosib yn y dyfodol. |
| Maes parcio | Maes parcio, gan gynnwys gofod parcio hygyrch, a weithredir ar sail y cyntaf i'r felin. |
| Trenau | Yr orsaf agosaf yw Caerfyrddin, sydd 15 munud ar droed o'r swyddfa. |
| Bysiau | Mae'r swyddfa wedi'i lleoli o fewn pellter cerdded i'r rhwydweithiau bysiau. |
| Beicio | Mae nifer o lwybrau beicio y gellid eu defnyddio i gyrraedd at y swyddfa, ac mae rhesel feiciau ar gael. |

**Crynodeb**
Mae lleoliad y swyddfa'n bodloni pob un o ofynion gweithredol yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r pellter oddi wrth y prif randdeiliaid a'r gweithlu medrus posibl yn golygu y byddai'n risg lleoli'r Awdurdod yno. Felly nid yw'n lleoliad addas ar gyfer yr Awdurdod. Fodd bynnag, gellid ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer gwaith allgymorth i sicrhau bod cwsmeriaid yn medru cyrraedd at wasanaethau staff symudol yr Awdurdod.

**Tablau sgorio**

## 1a) Sgiliau Arbenigol staff Llywodraeth Cymru fesul rhanbarth

| Proffesiwn[2] | Gogledd | Sgôr | Canolbarth | Sgôr | De-ddwyrain | Sgôr | De-orllewin | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trethi[3] }** | - | | - | | 15 | | - | |
| **Dadansoddi}** | - | | - | | 55 | | - | |
| **TG/Digidol }** | 4 | | 12 | | 61 | | 6 | |
| **Cyfanswm (x2)** | **4** | **2** | **12** | **6** | **131** | **8** | **6** | **4** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfreithiol }** | - | | 1 | | 59 | | - | |
| **Adnoddau Dynol }** | 8 | | 9 | | 136 | | 2 | |
| **Cyfanswm** | **8** | **2** | **10** | **3** | **195** | **4** | **2** | **1** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM SGÔR WEDI'I BWYSOLI** | **Gogledd** | **4** | **Canolbarth** | **9** | **De-ddwyrain** | **12** | **De-orllewin** | **5** |

[2] Hunanasesiad gan aelodau unigol o staff
[3] Tîm Gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru

## 1b) Pa mor agos mae'r lleoliad at Staff Arbenigol (CThEM)

| Lleoliad | CThEM Caerdydd (CF10 1FS) | Sgôr | CThEM Birmingham (B2 4AD) | Sgôr | CThEM Llundain (WC2R 1LT) | Sgôr | Cyfanswm Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cathays **Caerdydd** (CF10 3NQ) | **7 munud** 1.6 milltir | **6** | **2 awr 7munud** 117.7 milltir | **6** | **2 awr 48munud** 151.2 milltir | **6** | **6** |
| QED **Trefforest** (CF37 5YR) | **23 munud** 5.6 milltir | **5** | **2 awr 7munud** 120.3 milltir | **6** | **2 awr 49munud** 153.7 milltir | **5** | **5** |
| Rhyd-y-car **Methyr Tudful** (CF48 1UZ) | **37 munud** 23.6 milltir | **4** | **2 awr 11munud** 115 milltir | **5** | **3awr 3munud** 168.7 milltir | **4** | **4** |
| Teras Picton **Caerfyrddin** (SA31 3BT) | **1 awr 16 munud** 66.9 milltir | **3** | **3awr 8munud** 158 milltir | **4** | **3awr 46munud** 213.2 milltir | **3** | **3** |
| Rhodfa Padarn **Aberystwyth** (SY23 3UR) | **2awr 26munud** 111.3 milltir | **2** | **2awr 47munud** 123.2 milltir | **3** | **4awr 48munud** 235.6 milltir | **1** | **2** |
| **Cyffordd Llandudno** (LL31 9RZ) | **3awr 58munud** 190.7 milltir | **1** | **2awr 23munud** 136.4 milltir | **2** | **4awr 24munud** 258.1 milltir | **2** | **1** |

## 2) Pa mor agos mae’r lleoliad at y Prif Randdeiliaid (CNC a LlC)

| **Lleoliad** | **CNC** (CF24 0TP) | **Sgôr** | **Tîm Polisi Treth** (CF10 3NQ) | **Sgôr** | **Cyfanswm Sgôr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cathays **Caerdydd** (CF10 3NQ) | **5munud** 1.2 milltir | **6** | **0 milltir** | **6** | **6** |
| QED **Trefforest** (CF37 5YR) | **21munud** 8.5 milltir | **5** | **17munud** 7.6 milltir | **5** | **5** |
| Rhyd-y-car **Methyr Tudful** (CF48 1UZ) | **35munud** 23.5 milltir | **4** | **33munud** 22.8 milltir | **4** | **4** |
| Teras Picton **Caerfyrddin** (SA31 3BT) | **1awr 17 munud** 71 milltir | **3** | **1 awr 18 munud** 67.4 milltir | **3** | **3** |
| Rhodfa Padarn **Aberystwyth** (SY23 3UR) | **2awr 28munud** 114.6milltir | **2** | **2awr 30munud** 97.3 milltir | **2** | **2** |
| **Cyffordd Llandudno** (LL31 9RZ) | **3awr 57munud** 188.6 milltir | **1** | **3awr 55munud** 190.3 milltir | **1** | **1** |

## 3) Sgiliau staff Llywodraeth Cymru yn y Gymraeg (fesul graddfa)

| Lleoliad | | Nifer y Siaradwyr Cymraeg | TS | MB3 | MB2 | MB1 | EB2 | EB1 | SCS | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffordd Llandudno** | 428 | **177** (41%) | 19 | 36 | 56 | 39 | 17 | 7 | 2 | 1 |
| **Rhodfa Padarn, Aberystwyth** | 278 | **98** (35%) | 13 | 24 | 30 | 25 | 6 | | | |
| **Teras Picton, Caerfyrddin** | 186 | **63** (34%) | 19 | 19 | 17 | 5 | 3 | | | |
| **Parc Cathays** | 2660 | **348** (13%) | 32 | 65 | 82 | 68 | 58 | 16 | 16 | 11 |
| **Merthyr Tudful** | 614 | **49** (8%) | 8 | 14 | 13 | 9 | 3 | 1 | 1 | |
| **Canolfan QED, Trefforest** | 371 | **32** (9%) | 3 | 1 | 13 | 7 | 5 | 2 | 1 | |

**Atodiad C**

# Landfill Tax Sites and Stamp Duty Transaction Tax in Wales

